**DEGFED CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PBC**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**CAMAU GWEITHREDU**

**Cynhaliwyd y cyfarfod ar 28 Hydref 2013 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth**

**Yn bresennol:**
Matthew Quinn (Cadeirydd), Llywodraeth Cymru
Julian Woodman, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Ffermdir Amgaeëdig
Dave Thomas, Cadeirydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol
Charles Morgan, Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Ucheldir
Pete Frost, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dinesig a Thir Llwyd
Mike Howe, Cyd-Gadeirydd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol
Pete Jones, Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Gwlyptir
Kathryn Birch, Ysgrifennydd Grŵp Ecosystemau'r Gwlyptir
Tristan Hatton-Ellis, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw
Julia Korn, Cyfoeth Naturiol Cymru (eitem ar y Gronfa Ecosystemau Gwydn)
Yr Athro Mike Bruford, Prifysgol Caerdydd (dros y ffôn ar gyfer yr eitem ar y Prosiect Bylchau Tystiolaeth)
Caryn le Roux (am), Dave Martyn (pm), Polisi Llywodraeth Cymru
Tracey Lovering, Cynghorydd Ecosystemau/Cydgysylltydd Cadeiryddion PBC

**Ymddiheuriadau**: Gill Bell, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Morol; Chris Tucker, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Coetir; Rob Davies, Grŵp Gorfodi Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru, Helen Buckingham, Cadeirydd Grŵp Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir.

| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Pwy** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu a ddygwyd ymlaen o 5 Mawrth 2013 (Nawfed Cyfarfod Cadeiryddion Grwpiau PBC)** | | | |
| 1.1 | Diweddaru manylion aelodau'r Grwpiau<br>Anfon y manylion at Medwyn Roberts[1] ac anfon copi at TL[2] | **Pob Cadeirydd** | **18 Tach 2013** |
| 1.3 | Cwblhau/adolygu rhaglenni gwaith Grwpiau ar gyfer 2013-16. Anfon at TL[2] | **Pob Cadeirydd** | **2 Rhag 2013** |
| 4 (4. | Pob Cadeirydd i rannu adborth ar y tabl bylchau tystiolaeth gyda'u Grwpiau, a:<br>1) rhoi sylw i'r sylwadau a'r wybodaeth ddilynol / cysylltiadau a ddarparwyd gan yr Athro Mike Bruford (Gweler colofnau I.J.K yn y *Gofrestr Bylchau Tystiolaeth* ar wefan y Prosiect).[3]. Efallai y bydd angen:<br>• trafodaethau newydd ynglŷn â bylchau penodol gyda chysylltiadau newydd defnyddiol ag ymchwilwyr/adrannau;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn yn sgil tystiolaeth/papurau presennol y mae'r bwlch yn arwain atynt yn ôl Mike;<br>• ailysgrifennu'r cwestiwn fel y bo angen (os yw'n addas i ymchwil) gan ddilyn y canllawiau ar | **Pob Cadeirydd** | **6 Ion 2014** |

[1] Medwyn.Roberts@Wales.GSI.Gov.UK
[2] Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
[3] http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/WBP-Evidence-Gaps-Project

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Ysgrifennu cwestiynau ar gyfer ymchwil* ar dudalen we'r Prosiect uchod.<br>• rhannu bwlch mawr yn is-gwestiynau a all weddu i brosiectau unigol cysylltiedig.<br>2) gweithio gyda'ch Grŵp i nodi'r bylchau tystiolaeth â blaenoriaeth a lliwio'r rhain yn briodol yn y gofrestr bylchau tystiolaeth (coch=uchel, oren=canolig, melyn=isel).<br><br>3) cytuno ar arweinydd prosiect ymchwil eich Grŵp ar gyfer pob bwlch tystiolaeth â blaenoriaeth uchel (addas i ymchwil); arweinydd i ddatblygu a chyflwyno Cynnig Prosiect cyflawn ar gyfer pob prosiect ymchwil i TL² | **Pob Cadeirydd**<br><br><br>**Pob Cadeirydd** | **6 Ion 2014**<br><br><br>**6 Ion 2014** |
| 5. | Pob Cadeirydd i sicrhau bod tudalennau ei Grŵp ar wefan PBC[4] yn cael eu diweddaru a'u bod yn cynnwys rhestr o aelodau'r Grŵp, agendâu cyfarfodydd, camau gweithredu, rhaglenni gwaith, prosiectau gan gynnwys prosiectau a ariennir gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn, mapiau â blaenoriaeth, manylion cyswllt a dolenni defnyddiol. Anfon y diweddariadau i dudalennau at Sean McHugh[5]. | **Pob Cadeirydd** | **6 Ion 2014** |
| **Camau gweithredu newydd 28 Hydref 2013** | | | |
| 1. | Matthew i weithio gyda Ceri Davies (CNC) er mwyn ystyried y rhwystrau ariannol i recriwtio myfyrwyr AU i weithio gyda CNC ar brosiectau penodol. | **MQ a CD** | **25 Tach 2013** |
| 2. | Gwefan PBC: Tracey i ofyn i Sean McHugh:<br>1) A ellir rhoi lle mwy amlwg i dudalennau'r Grwpiau ar y wefan fel ei bod yn haws dod o hyd iddynt<br>2) A fyddai modd creu tab Grwpiau PBCG yn lle'r tab Grwpiau Ecosystemau er mwyn sicrhau bod pob Grŵp wedi'i gynnwys a bod ganddo ei dudalen ei hun h.y. ymestyn tudalennau i'r Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Canlyniad 21, WWCEG, Tasglu Pryfed Peillio<br>3) A ellir rhoi hawliau golygu tudalennau i'r Cadeiryddion a'r Ysgrifenyddion.<br>4) Matthew i holi Llywodraeth Cymru am gyfyngiadau ar arian datblygu gwefannau ar gyfer gwefan PBC. | **TL/SMH**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**MQ** | **18 Tach 2013 (Ar waith)**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**25 Tach 2013** |
| 3. | Pob Cadeirydd i baratoi diweddariadau ysgrifenedig (paragraff yn unig) ar y diweddariadau llafar a roddir yn y cyfarfod. Yn y dyfodol, dylid eu darparu bythefnos cyn Cyfarfodydd Grwpiau PBC er mwyn eu rhannu ar wefan PBC ynghyd â chamau gweithredu a negeseuon allweddol. Anfon at TL². | **Pob Cadeirydd** | **11 Tach 2013** |
| 4. | Tracey i anfon Cylch Gorchwyl diwygiedig awgrymedig ar gyfer Grwpiau PBC at bob Cadeirydd, gan gynnwys Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio PBC sy'n briodol i'r Grŵp hwn. Caryn a Tracey i gyfarfod er mwyn trafod y fersiwn ddrafft. Cadeiryddion i wneud sylwadau a chytuno ar fersiwn derfynol. | **TL/Pob Cadeirydd** | **25 Tach 2013** |

4 www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Ecosystems--Species-Expert-Groups
5 smchugh@wtwales.org

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. | Julia i roi trosolwg o System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth Cymru (BARS) i dîm Polisi Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod Tîm Cymorth Bioamrywiaeth PBC a Llywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2013. | **JK** | **12 Tach 2013** |
| 6. | Bydd Bwrdd Strategaeth Natur/Bioamrywiaeth Cymru yn darparu agenda a phapurau mewn da bryd i Gadeiryddion PBC cyn pob cyfarfod Bwrdd, er mwyn rhoi cyfle i Gadeiryddion PBC wneud sylwadau a rhoi cyngor i'r Bwrdd. | **ClR a DH/Pob Cadeirydd** | **29 Hyd 2013 (Ar waith)** |
| 7. | TL i drefnu bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ffurf gweithdy ac awgrymir y dylid canolbwyntio ar Fiosffer Dyfi. Cysylltu ag Andy Rowlands, EcoDyfi. | **TL** | **25 Tach 2013 (Ar waith)** |
| 8. | TL i holi Sean McHugh a yw cyllideb PBC yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer aelodau Grwpiau sy'n mynychu fel unigolion preifat yn hytrach na chynrychiolwyr sefydliadau. | **TL/SMH** | **25 Tach 2013 (Ar waith)** |
| **Camau gweithredu parhaus** | | | |
| i | Gan ddefnyddio'r Cynllunydd Gweithdai Mapio â Blaenoriaeth, dylai Cadeiryddion sicrhau bod eu Grwpiau yn ychwanegu gweithdai sydd i'w cynnal a chamau gweithredu o weithdai blaenorol (anfon at SMH[5]). Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r Cynllunydd â'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau er mwyn hwyluso presenoldeb cynrychiolwyr y Grŵp yn y digwyddiadau hyn. | **Pob Cadeirydd** | **2013** |
| ii | Pob Cadeirydd i anfon Diweddariadau'r Grwpiau a ddarparwyd yn nawfed cyfarfod y Cadeiryddion at Tracey Lovering fel y gellir eu cynnwys ar wefan PBC ynghyd ag agenda a chamau gweithredu'r cyfarfod. | **Pob Cadeirydd** | **12 Tach 2013** |
| iii | Pob Grŵp Ecosystem i edrych unwaith eto ar y Mapiau Ardaloedd Gweithredu â Blaenoriaeth a data cysylltiedig. Cadeiryddion neu arweinyddion dirprwyedig i gasglu unrhyw newidiadau a darparu mapiau GIS diwygiedig terfynol a chamau gweithredu cysylltiedig i Jan Sherry | **Pob Cadeirydd** | **6 Ion 2014** |

Tracey Lovering
6 Tachwedd 2013